

## Hyrwyddwyr Gwerth Cymdeithasol – Proffil Rôl

### 1. Cefndir

1.1 Mae Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IGCI) Caerdydd a Bro Morgannwg yn sefydlu Fforwm Gwerth Cymdeithasol i **wella canlyniadau cadarnhaol a lles pobl leol i'r eithaf, dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol, ac yn ychwanegu gwerth a ffocws i'r hyn sy'n bwysig i bobl mewn ffordd na ellir rhoi pris arno.** Yn ganolog i hynny y mae:

- gwella iechyd a lles;
- adeiladu cymunedau diogelach;
- manteisio ar gyfleoedd i gyflawni potensial gymaint â phosibl;
- gwella'r amgylchedd ffisegol; a
- cefnogi economïau lleol.

1.2 Nodau'r Fforwm yw:

- Hwyluso a chydlynu rhwydwaith o ddarparwyr a rhanddeiliaid gwerth cymdeithasol i gynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd cydweithio a dysgu a rennir;
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o werth cymdeithasol a'r sector gwerth cymdeithasol ledled y rhanbarth;
- Canfod a hybu darparwyr gwerth cymdeithasol yn rhan o'r broses gomisiynu, gan gynnwys datblygu dulliau newydd o gefnogi gweithio consortia;
- Dod o hyd i gyfleoedd cymorth, arweiniad a hyfforddiant i alluogi'r sector i ddatblygu ledled y rhanbarth;
- Hybu dull cydweithredol (ar sail egwyddorion cyd-gynhyrchu) o weithio gyda dinasyddion, cymunedau a darparwyr o ran cefnogi pobl i fyw eu bywydau eu hunain yn annibynnol;
- Dod o hyd i 'hyrwyddwyr' gwerth cymdeithasol yn y meysydd blaenoriaeth sy'n gallu hybu gwaith y sector a dylanwadu ar agenda strategol y Bartneriaeth ar ran pobl eraill;
- Llywio gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg o ran hybu gwerth cymdeithasol a datblygu mentrau cymdeithasol, gan gynnwys datblygu adroddiadau gweithgarwch yn unol â gofynion Deddf GCLL.

1.3 Atodir Cylch Gorchwyl y Fforwm fel **Atodiad 1.**

### 2. Hyrwyddwyr Gwerth Cymdeithasol

2.1 I helpu i ddatblygu gwaith y Fforwm, mae Partneriaeth IGCI am 'benodi' hyrwyddwr sector ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd, gan gynrychioli amrywiaeth y boblogaeth ledled Caerdydd a Bro Morgannwg:

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir (gan gynnwys demensia);
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion;
- Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd;
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch;

- Ymgysylltu a chyd-gynhyrchu cymunedol.

2.2 Bydd rôl yr Hyrwyddwr Gwerth Cymdeithasol yn cynnwys yr ymrwymadau canlynol:

- Cyfarfod ag Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth a Hyrwyddwyr eraill hyd at 3 gwaith y flwyddyn i lywio rhaglen waith y Fforwm;
- Cynnig cyngor ac enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â datblygu gwerth cymdeithasol yn eu maes arbenigedd perthnasol;
- Chwarae rôl actif mewn unrhyw weithdai/digwyddiadau/cyfarfodydd perthnasol wedi'u trefnu i ddatblygu gwerth cymdeithasol ymhellach ledled Caerdydd a Bro Morgannwg;
- Cynorthwyo gyda'r gwaith o hybu ymgysylltiad a chyfranogiad dinasyddion yn rhan o ddatblygu'r gwasanaethau wrth symud ymlaen;
- Cynorthwyo gyda rhoi diweddariadau i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg a Llywodraeth Cymru yn ôl yr angen.

2.3 I ddod yn 'Hyrwyddwr' gofynnir bod yr unigolyn/sefydliad yn **gwneud gwaith ledled Caerdydd a Bro Morgannwg ar hyn o bryd.**

2.4 Bydd angen i 'Hyrwyddwyr' ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau mewn perthynas ag unrhyw waith y gallai fod yn rhan ohono e.e. cyfleoedd tendro.

2.5 Penodir hyrwyddwyr am **dymor 1 flwyddyn** yn y lle cyntaf. Adolygir gweithredu'r Fforwm, gan gynnwys rôl yr Hyrwyddwyr, ar yr adeg hon i adlewyrchu dysgu yn ystod y 12 mis cyntaf.

2.6 Yn dilyn proses ym mis Medi 2017, mae'r Pencampwyr canlynol wedi eu penodi i gefnogi gwaith y Bartneriaeth:

Pobl Hŷn	San Leonard, Prif Weithredwr, Social Firms Wales
Anabledau Dysgu	Simon Richards, Cadeirydd Ymddiriedolwyr – Cardiff People First
Gofalwyr	Babs Lewis, Rheolwr Datblygu Cymru, Shared Lives Plus
Cymorth Teuluol Integredig	Jacqueline Amos, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth, Cymdeithas Tai Taf
Plant ag anghenion cymhleth	Maria Thomas, Cyfarwyddwr Partneriaethau, Shaw Trust
Ymgysylltu Cymunedol a Chydgyhyrchu	John Hallett, Cyfarwyddwr, Action in Caerau & Ely Marco Gil-Cervantes, Prif Weithredwr, Promo Cymru



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



## Fforwm Gwerth Cymdeithasol Caerdydd a Bro Morgannwg

### Cylch Gorchwyl

#### 1. Cefndir

1.1 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Rhan 2, Adran 16) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i hybu datblygiad sefydliadau dielw yn eu hardaloedd i gynnig gofal a chymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau a threfniadau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector.

1.2 **Rhaid** i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol hefyd sefydlu fforymau rhanbarthol i gefnogi darparwyr sydd wedi'u seilio ar werthoedd cymdeithasol i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r agenda cyffredin, ac i rannu a datblygu arfer da. Nod y fforwm yw creu sector ffyniannus sydd wedi'i seilio ar werthoedd cymdeithasol, sy'n gallu manteisio ar gyfleoedd i gynnig gwasanaethau ac sy'n barod i wneud hynny.

#### 2. Diben Fforwm Cymdeithasol y Fro

2.1 Diben<sup>1</sup> y Fforwm yw **gwella canlyniadau cadarnhaol a lles pobl leol i'r eithaf; dylanwadu ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol; ac ychwanegu gwerth a ffocws i'r hyn sy'n bwysig i bobl mewn ffordd na ellir rhoi pris arno.** Yn ganolog i hynny y mae:

- gwella iechyd a lles;
- adeiladu cymunedau diogelach;
- Manteisio ar gyfleoedd i gyflawni potensial cymaint â phosibl;
- gwella'r amgylchedd ffisegol; a
- chefnogi economïau lleol.

#### 3. Nodau'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol

3.1 Nodau'r Fforwm yw:

- Hwyluso a chydlynu rhwydwaith o ddarparwyr a rhanddeiliaid gwerth cymdeithasol i gynorthwyo yn y gwaith o ddatblygu cyfleoedd cydweithio a dysgu a rennir;
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o werth cymdeithasol a'r sector gwerth cymdeithasol ledled y rhanbarth;
- Canfod a hybu darparwyr gwerth cymdeithasol yn rhan o'r broses gomisiynu, gan gynnwys datblygu dulliau newydd o gefnogi gweithio consortia;
- Dod o hyd i gyfleoedd cymorth, arweiniad a hyfforddiant i alluogi'r sector i ddatblygu ledled y rhanbarth;

<sup>1</sup> Fel y cytunwyd yng Ngweithdy 'Cwmpasu' Rhandeiliaid Gwerth Cymdeithasol ar 3 Mai 2017

- Hybu dull cydweithredol (ar sail egwyddorion cyd-gynhyrchu) o weithio gyda dinasyddion, cymunedau a darparwyr o ran cefnogi pobl i fyw eu bywydau eu hunain yn annibynnol;
- Dod o hyd i 'hyrwyddwyr' gwerth cymdeithasol yn y meysydd blaenoriaeth sy'n gallu hybu gwaith y sector a dylanwadu ar agenda strategol y Bartneriaeth ar ran pobl eraill;
- Llywio gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg o ran hybu gwerth cymdeithasol a datblygu mentrau cymdeithasol, gan gynnwys datblygu adroddiadau gweithgarwch yn unol â gofynion Deddf GCLL.

#### **4. Aelodaeth**

- 4.1 Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn datblygu gwerth cymdeithasol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg fod yn aelod o'r Fforwm.
- 4.2 Bydd pwyslais penodol ar sicrhau bod rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r meysydd blaenoriaeth sydd wedi'u nodi yn Rhan 9 Deddf GCLL yn rhan, sef y canlynol, yn rhan o'r Fforwm:
- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir (gan gynnwys demensia);
  - Pobl ag Anableddau Dysgu
  - Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
  - Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd
  - Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch
- 4.4 Adolygir aelodaeth y Fforwm yn flynyddol.

#### **5. 'Hyrwyddwyr' Gwerth Cymdeithasol**

- 5.1 Bydd y Fforwm yn ceisio dod o hyd i 'hyrwyddwr' gwerth cymdeithasol ar gyfer y meysydd blaenoriaeth y cytunwyd arnynt.
- 5.2 Caiff 'proffil rôl' Hyrwyddwr ei ddatblygu a gwahoddir datganiadau o ddiddordeb gan y sector gwerth cymdeithasol.
- 5.3 Bydd yr hyrwyddwr yn cynorthwyo trwy gyflawni rôl arweinyddiaeth ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i hybu gwaith y sector a chyfrannu at y gwaith parhaol o ddatblygu'r Fforwm.

#### **6. Fformat ac Amllder Cyfarfodydd y Fforwm**

- 6.1 Caiff y Fforwm ei ddatblygu fel rhwydwaith 'rhithwir' i ddatblygu cyd-ddulliau ac arfer gorau.
- 6.2 Ceir gwybodaeth am waith y Fforwm ar wefan Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg yn <http://www.cvihsc.co.uk/cy/>.

- 6.3 Bydd y Fforwm yn cyfarfod hyd at 4 gwaith y flwyddyn a bydd yn cynnwys sesiynau/gweithdai â ffocws ar feysydd blaenoriaeth y mae aelodau wedi cytuno arnynt.
- 6.4 Anogir aelodau o'r Fforwm i awgrymu a rhannu digwyddiadau a sesiynau eraill wedi trefnu gan y sector yn rhan o ddiben y Fforwm o rannu arfer gorau a chyfleoedd dysgu ehangach.
- 6.5 Gellir ffurfio grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gyflawni tasgau penodol fel sy'n briodol.
- 6.6 Cynhelir cyfarfodydd mewn lleoliadau ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

## **7. Grŵp Llywio**

- 7.1 Caiff Grŵp Llywio bach ei sefydlu i oruchwylio gwaith y Fforwm a bydd aelodau yn cynnwys partneriaid statudol (Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a BIP Caerdydd a'r Fro), cynrychiolwyr trydydd sector y BPRh a'r 'Hyrwyddwyr' Gwerth Cymdeithasol sydd wedi'u nodi.

## **8. Ysgrifenyddiaeth**

- 8.1 Caiff Ysgrifenyddiaeth y Fforwm ei darparu gan Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a Bro Morgannwg a bydd Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn ei gweinyddu.
- 8.2 Caiff papurau ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm eu cylchredeg wythnos cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal.

## **9. Atebolrwydd**

- 9.1 Bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg yn gyfrifol am arweinyddiaeth.
- 9.2 Rhoddir Adroddiadau Gweithgarwch ar waith y Fforwm i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bob tri mis ac yn rhan o Adroddiad Blynyddol y BPRh.

## **10. Adolygiad**

- 10.1 Bydd y fforwm yn adolygu perthnasedd ei ddiben a'r Cylch Gorchwyl yn flynyddol.

**Dyddiad wedi cytuno arno: 9 Mehefin 2017**